

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2021 – 22
(Tachwedd 2022)

AGM – 7fed Mis Rhagfyr 2022 am 5.00 y.h
yn Neuadd yr Ysgol



CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno, ar ran y Corff Llywodraethu, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2021 - 22. Fel Corff Llywodraethu, mae rhwymedigaeth arnom i ddarparu gwybodaeth benodol i chi am yr Ysgol, fel y nodir mewn deddfwriaeth.

Daeth y flwyddyn ysgol 21 - 22 i ben a ninnau yn ffarwelio â Mrs. Iona Edwards a oedd yn Bennaeth yr Ysgol am 18 mlynedd. Byddwn yn gweld colled ar ei hôl hi ac yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iddi. Yn ystod tymor yr Haf, bu Mrs. Nia Cule yn cefnogi'r ysgol fel Pennaeth Gweithredol, ac yr ydym yn falch iawn o'r gwaith mae hi wedi gwneud dros yr ysgol i'r plant, staff a'r cymuned.

Mae'r Ysgol yn parhau i gyflawni ei hamcanion, ac mae hyn o ganlyniad i waith caled ac ymroddiad y disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, staff a rhanddeiliaid yn y gymuned sy'n cefnogi ein Hysgol. Mae hyn yn cynnwys y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA), y mae ei gwaith rhagorol yn sicrhau fod arian hollbwysig yn cael ei wario ar offer ac eitemau sydd o fudd i'r disgyblion. Rwy'n annog yr holl rieni i gymryd rhan.

Cyflawniad sylweddol eleni, ar ôl cytuno a'r Llywodraethwyr oedd adnewyddu'r lloriau yn yr adran lau a'r prif fynedfa. Byddwn yn gweld rhagor o waith adnewyddu yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i fuddsoddi'n hyderus mewn gwell cyfleusterau i'ch plant.

Byddwn yn parhau i weithio a chefnogi'r staff i sicrhau bod yr Ysgol yn parhau'n amgylchedd hapus a diogel ar gyfer pob disgybl, gyda chyfleoedd i bawb gyrraedd eu llawn botensial - boed hynny'n academaidd, yn gerddorol, ym maes y campau neu unrhyw faes arall. Rydym am i'r Ysgol fod yn rhan flaenllaw mewn addysg Gymraeg yn lleol. Credaf fod yr angerdd a'r egni a grëwyd ac sydd yn parhau gan y Siarter Iaith wedi rhoi dimensiwn ychwanegol i'r Ysgol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd pob aelod o gymuned yr ysgol yn gweithio tuag at ddatblygu cwriciwlwm cyffrous newydd - byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau a sgiliau trawsgwriciwlaid. Byddwn hefyd yn parhau i wella dealltwriaeth o'r Bil ADY ac yn datblygu strategaethau i hybu lles plant ac oedolion yr ysgol. Mae staff yr ysgol wedi gwneud gwaith sylweddol ar y mannau hyn y flwyddyn yma ac mae rhaid eu llongyfarch.

Diolch am ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Pen-y-Garth. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn ymfalchio ym mhob disgybl. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau parthed yr Ysgol neu'n teimlo y gallwch gyfrannu i gefnogi'r Ysgol mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â'r Llywodraethwyr drwy'r Ysgol.

Mae'r corff llywodraethu yn gwerthfawrogi barn, profiadau ac awgrymiadau rhieni ac, ag eithrio cwynion a ddylai ddilyn y drefn gyhoeddedig, rydym yn annog pawb i gysylltu â ni i rannu eu barn. Gall unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r corff llywodraethu wneud hynny drwy'r Clerc drwy e-bostio Nicky Sturgess: sturgesswebb@hotmail.co.uk

Yn gywir
Rhian Griffiths, Cadeirydd

Ein Gweledigaeth

‘Law yn Llaw, Llwyddiant a Ddaw’

Mae Pen y Garth yn gymuned hapus lle rydym yn cefnogi ein gilydd ac mae llais pawb yn cael ei glywed. Mae hapusrwydd, lles a llwyddiant pawb yn flaenoriaeth i ni.

Gyda’n gilydd, rydym yn:

- gofalu am a pharchu ein gilydd
- dathlu ac yn falch o’n hunaniaeth, cynefin, diwylliant a’n hiaith
- caru’r hyn sy’n ein gwneud ni’n debyg ond hefyd yn wahanol
- magu hyder wrth weithio a chwarae
- frwdfrydig ac yn chwilfrydig
- tanio’r dychymyg a chreadigrwydd
- anelu am y sêr ymhopeth a wnawn



Y Corff Llywodraethu a'i Rôl

Mae gan Gorff Llywodraethu Ysgol Pen-y-Garth gyfrifoldeb i oruchwyllo bod yr Ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, gan weithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth ac y cedwir at bolisiau'r Awdurdod Lleol (ALI) a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Corff Llywodraethu, y Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio mewn partneriaeth agos a chytbwys er mwyn darparu'r addysg orau i'r disgyblion yn Ysgol Pen-y-Garth. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn canolbwyntio ar safonau uchel o addysgu a hefyd safonau uchel o les i'r plant. Mae'r Corff Llywodraethwyr yn gyfrifol am adolygu polisiau'r ysgol i gadarnhau eu bod yn addas ac yn gyfoes.

Bydd y Corff Llywodraethu llawn yn cyfarfod ddwywaith y tymor a cheir hefyd nifer o is-bwyllgorau sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r is-bwyllgorau hyn wedi'u sefydlu'n strategol i gefnogi anghenion yr Ysgol. Mae agenda penodol i bob cyfarfod. Mae gan rai o'r is-bwyllgorau hyn gyfrifoldebau dirprwyedig.

Y Corff Llywodraethu 2021- 22

Mrs Rhian Griffiths (Cadeirydd)	ALL
Mr Jamyn Beesley (Is-gadeirydd)	Rhiant
Mrs Iona Edwards	Pennaeth
Mr Chris Franks	ALI - Ymadael Mawrth 2022
Mr Dafydd Owen	Rhiant
Mrs Kate Allman	Rhiant
Mr Dyfri Owen	Rhiant
Mrs Llinos Misra	Cymunedol
Mrs Cath Bliss	Addysgu
Mrs Sally Craven	Staff Ategol – dechrau Mawrth 2022
Mr Dave Wilton	ALI
Mr Richard Grigg	Awdurdod Llai
Mr Rhys Angell Jones	Cymunedol
Mr Geraint Scott	Cymunedol
Mr Dave Horgan	Ali – dechrau Mawrth 2022
Nicky Sturgess	Clerc

Pwyllgorau Ysgol Pen-y-Garth

Cyfarfod o leiaf unwaith y tymor	Cyfarfod yn ôl y galw
Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau Pwyllgor Safle ac Iechyd a Diogelwch Pwyllgor Rheoli Perfformiad y Pennaeth Pwyllgor Lles a diogelu Pwyllgor Cyfathrebu	Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a Gwaharddiadau Pwyllgor Disgyblu Staff Pwyllgor Cwynion Pwyllgor Apeliadau Pwyllgor Staffio Pwyllgor Siarter Iaith
Llywodraethwyr sydd â Rolau Penodol	
Rhian Griffiths (Pwyllgor Rheoli Perfformiad y Pennaeth) Dave Horgan (Iechyd a Diogelwch) Llinos Misra (Diogelu) Jamyn Beesley (ADY)	

Pwyllgor Cyllid

Mae'r pwyllgor hwn yn argymhell cyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gael ei chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu llawn cyn ei chyflwyno i'r AALL. Hefyd, o leiaf unwaith y tymor, mae'n derbyn ac yn rhoi ystyriaeth i adroddiadau ariannol sy'n amlinellu cyfrif incwm a gwariant yr Ysgol er mwyn gwneud yn siwr y cynhelir cyllideb gytbwys, a chynorthwyo i nodi ffyrdd o gydbwysu galwadau ar adnoddau gyda'r arian sydd ar gael, ac i adrodd am hynny wrth y Corff Llywodraethu.

Pwyllgor Cwricwlwm

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried pob mater mewn perthynas â chwricwlwm yr Ysgol. Mae hyn yn cynnwys y cynllun datblygu ysgol, polisiau'n ymwneud â'r cwricwlwm, targedau a pherfformiad disgyblion. Mae aelodau o'r cyngor yma yn cael y cyfle i ymgymryd mewn teithiau dysgu gyda aelodau'r Uwch Dîm.

Safle ac Iechyd a Diogelwch

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried pob mater sy'n ymwneud â safle, adeiladau ac iechyd a Diogelwch yn yr Ysgol yn ogystal â diogelwch â'r tir. Mae hyn yn gofyn am archwilio'r safle i ganfod gwaith cynnal a chadw hanfodol.

Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd y Grŵp Tasg a Gorffen Recriwtio a Chadw i adolygu dull yr ysgol o ddenu disgyblion newydd a'u cadw drwy gydol eu blynyddoedd ysgol. Arweiniodd y grŵp ymgyrch sylweddol i edrych fewn i ffactorau a allai effeithio ar recriwtio a chadw yn yr ysgol, a defnyddio'r dystiolaeth hon i wneud sawl argymhelliad i helpu'r ysgol i wella perfformiad yn y meysydd hyn. Cymeradwywyd yr argymhellion gan y corff llywodraethu llawn a byddant yn cael eu mabwysiadu gan yr ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf, er enghraifft, creu grŵp cyfathrebu dan arweiniad rhieni i godi proffil yr ysgol ymhlith y gymuned a pharhau i gryfhau perthynas y rieni a'r ysgol o ran cyfathrebu. Byddwn yn adrodd ar gynnydd y gwaith hwn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yr hyn y mae'r Llywodraethwyr wedi'i gyflawni y flwyddyn yma

Mae'r polisiau a gymeradwywyd ac a ddiwygiwyd eleni yn cynnwys Polisi Diogelu, Polisi Presenoldeb, Polisi Gwrth-fwlio, Polisi Cwynion, Polisi Gofal Iechyd a'r Polisi Derbyniadau.

Mae'r holl Lywodraethwyr yn mynychu hyfforddiant gorfodol e.e. deall data ysgolion a ymsefydlu. Mae cyrsiau eraill a fynychwyd yn cynnwys Lles, Diogelu Data a Hyfforddiant i Gadeiryddion Llywodraethwyr. Mae'r Llywodraethwr Diogelu yn mynychu hyfforddiant diogelu.

Amgylchedd yr Ysgol

Toiledau

Mae'r darpariaeth toiledau ar gyfer yr holl ddisgyblion yn dda. Mae gan yr Ysgol 5 bloc o doiledau ar gyfer disgyblion (Meithrin, Derbyn, B1 a 2, B3-5 a B6) - cyfanswm o 25 toiled. Mae'r rhain yn cael eu glanhau'n ddyddiol gan 'Vale Cleaners.'

Adeiladau

Yn ystod gwyliau'r haf 2022 bu gwaith sylweddol ar adnewyddu lloriau'r ysgol. Mae angen mwy o waith adnewyddu yn yr ysgol a mi fyddwn yn gweithio ar hyn yn ystod y flwyddyn gyda chymorth yr Awdurdod Lleol.

Blaenoriaethau Gwella Ysgol 2021 - 22

Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynllunio'r Cynllun Gwella Ysgol (gyda chysylltiad y staff). Mae'r cynllun yn adnabod y cyfeiriad bydd yr ysgol yn cymryd dros y flwyddyn academaidd, trwy ddarpariaeth y cwricwlwm a thrwy codi safonau. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro yn gyson a lle bo'r angen, yn cael ei newid i gymryd i ystyriaeth y cynnydd sydd wedi ei wneud.

Y prif ardaloedd o ddatblygiad i'r flwyddyn academaidd 2021 – 22 yw:

Safonau

Parhau gyda threfniadau ar gyfer dylunio Cwricwlwm i Gymru Medi 2022. Bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau sydd yn cynnwys y sgiliau yn y 6 maes addysgu. Ac hefyd canolbwyntio ar y 4 diben.

Gofal Cymorth ac arweiniad

Lles – Sicrhau fod darpariaethau Lles yr ysgol yn cwrdd ag anghenion pob disgybl a aelodau o staff. Bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar ehangu'r cyfleoedd o wobrwyo plant. Bydd yr ysgol hefyd yn edrych ar ddarpariaeth ac yn canolbwyntio ar asesiad SELFIE.

ADY

Bydd yr ysgol yn parhau i sicrhau fod gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer Deddf ADY (mewn paratoad i Ionawr 2022). Bydd yr ysgol yn parhau i weithio gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol.

Cyswllt a'r gymuned

Bydd yr ysgol yn parhau i wella cyfathrebiad ac ymgysylltiad â rhieni, Llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Y Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am ADY yw Mr Jamyn Beesley. Miss Jacks yw'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am ADY. Mae'r Llywodraethwyr yn cael gwybodaeth am y datblygiadau yn y maes yma ym mhob cyfarfod fel rhan o adroddiad y Pennaeth.

Mae'r Ysgol yn dilyn y Côd Ymarfer ar gyfer plant sydd ag ADY a rhoddir cymorth iddynt mewn sawl ffordd. Mae Miss Jacks yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yna'n cynllunio ac yn cynghori aelodau eraill o staff ynglŷn â pha ymyrraethau sydd eu hangen. Bydd athrawon dosbarth yn addasu gwaith ar gyfer unigolion/grwpiau ac mae Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn darparu rhaglenni ymyrraeth addas.

Mae'r Ysgol hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol - megis y Seicolegydd Addysg. Mae Miss Jacks hefyd yn darparu cymorth mwy arbenigol wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau/unigolion. Bydd Miss Jacks yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn cwrdd â hwy o leiaf unwaith y tymor. Os oes unrhyw pryderon gennych ynglŷn â'ch plant a'r cynnydd maent yn gwneud dylech siarad a'r athro dosbarth yn gyntaf. Bydd yr athro wedyn, os bydd angen yn trefnu cyfarfod gyda'r cydlynnydd. Fe all hyn arwain at gymorth ychwanegol i'ch plentyn.

Mae staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant "Trauma Informed Schools UK". Mae yr hyfforddiant yma yn galluogi y staff i rhoi cymorth ychwanegol i blant sydd yn dioddef gyda thrawma a phroblemau iechyd meddwl.

Cyfleoedd cyfartal

Yn dilyn ein polisi Cyfleoedd Cyfartal, mae gan pob plentyn hawl i fynychu Cwricwlwm 2022. Mae'r staff yn gweithio'n ddyfal i alluogi pob plentyn i gael y cyfle i gyrraedd eu llawn potensial.

Cwricwlwm

Mae cymuned ein hysgol gyfan wedi cydweithio i ffurfio ein gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022. Trwy holiaduron rhieni, cyfarfodydd cyrff llywodraethu, pwyllgorau disgyblion (Dysgu Difyr) a dull staff ysgol gyfan, rydym wedi gwrando ac ymateb i lais pawb i greu ein gweledigaeth newydd, cyffrous.



Mae'r 4 diben yn rhan annatod o'n proses gynllunio ac yn sail i'n weledigaeth newydd. Trwy themâu trawsgwricwlaidd, profiadau dilys ac arddulliau addysgu amrywiol, mae disgyblion yn cael eu meithrin i ymgorffori y 4 diben ar gyfer dysgu gydol oes. Mae addysgu a dysgu yn cwmpasu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad trwy themâu ac ymholiadau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r egwyddorion cynnydd yn sail i'r holl gynllunio.



Mae'r themâu trawsgwricwlaidd:

- Addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb (RSE).
- Hawliau Dynol
- Amrywiaeth
- Gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

â'r fframweithiau trawsgwricwlaidd o

- Lythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd Digidol

yn cael eu haddysgu drwy bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Bydd yr CGM gorfodol (crefydd, gwerthoedd a moeseg) hefyd yn cael ei addysgu trwy'r Maes Dysgu a Phrofiad - Dyniaethau.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion Cymraeg eraill y clwstwr mewn grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad, a thîmau o fewn ein hysgol i nodi a sicrhau dilyniant drwy'r Egwyddorion Cynnydd gorfodol cenedlaethol. Byddwn fel ysgol yn sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn cael eu cefnogi trwy eu taith dysgu unigol yn ddyddiol. Bydd asesu yn rhan o'n dysgu bob dydd lle bydd disgyblion yn trafod gydag athrawon pa mor dda y maent yn gwneud a sut y gellir eu cefnogi i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Byddwn yn adolygu ein Cwricwlwm yn barhaus gyda mewnbwn disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni a llais y gymuned ehangach. Bydd y broses monitro, gwerthuso ac adolygu hefyd yn rhan o'r Cynllun Gwella Ysgol a bydd datblygiad proffesiynol pwrpasol yn cefnogi staff gyda'r broses. Byddwn yn defnyddio'r Model Meddwl Dylunio i gefnogi ein proses adolygu.

Cymorth Rhieni / CRhA

Mae gennym CRhA cefnogol ym Mhen-y-Garth ac mae'n gweithio'n galed i godi arian ar gyfer adnoddau i'r plant. Os byddech eisiau ymuno â'r CRhA - cysylltwch â'r swyddfa. Mae'n bwysig iawn i ni fel gymuned Ysgol Pen y Garth ein bod yn gweithio ar y cyd gyda'r rhieni a'r teuluoedd, ac fe fyddwn felly yn creu amryw o gyfleoedd i wahodd y rhieni i mewn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Gosod Targedau

Pob blwyddyn rydym yn gosod targedau yn y pynciau craidd ar gyfer ein disgyblion. Rydym yn tracio cynnydd disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae'n hollbwysig ein bod yn gosod targedau sy'n berthnasol i'r Ysgol hon ac yn ceisio codi safonau ar gyfer disgyblion unigol yn hytrach na chanolbwyntio ar ganrannau yn unig. Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gall y garfan amrywio o un flwyddyn i'r llall. Y peth pwysig yw anogir pob disgybl i ymdrechu 100% ac i gyrraedd ei lawn potensial.



Llwyddiannau'r Ysgol a digwyddiadau 2021 - 22

- *Plant blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau eu hamser gyda staff yr ysgol a gyda plant ysgolion Cymraeg y Fro yn Glanllyn a Llangrannog yn ystod tymor yr Hydref.*
- *Nifer o rieni wedi mynychu noson rhannu gwybodaeth Cwricwlwm i Gymru*
- *Gwasanaeth cynhaeaf gyda'r parchedig Kevin Davies*
- *Partion Nadolig - pob plentyn wedi mwynhau a rhai wedi cael y cyfle i gwrdd â Siôn Corn*
- *Ymweliad 'Space station' – Lunar samples*
- *Ymweliad dynion tân a'r heddwas – amrywiol drwy'r Ysgol*
- *Diwrnod dathlu can mlynedd yr Urdd – pawb wedi ymuno a canu can Mr Urdd*
- *Wythnos lechyd meddwl – pawb yn Helo Melyn*
- *Diwrnod Shwmae*
- *Blwyddyn 5 a 6 Cystadleuaeth Cogurdd*
- *Eisteddfod gylch, Eisteddfod Sir a Eisteddfod Genedlaethol – x3 buddugol (Dawns creadigol / hip hop unigol / unawd telyn) – Da iawn pawb a gyfrannodd*
- *Parti Pitsa (Siarter Iaith)*
- *Wythnos gwrth fwliau*
- *Wythnos cerdded i'r Ysgol*
- *Clybiau ysgol - clwb dawns, clwb chwaraeon a chlwb pel rwyd*
- *Gweithdai 'Mad Science'*
- *Gwyl Fach y Fro – pawb wedi mwynhau*
- *Crucial Crew - blwyddyn 6*
- *Gwibdeithiau Tymor yr Haf*
- *Diwrnod agored - braf gweld cynifer o rieni yn yr ysgol yn rhannu dysgu eu plant*
- *Twrnameint pel droed y Fro – PyG yn fuddugol!*
- *2 bore coffi i rieni*
- *Teithiau cerdded (i godi arian ar gyfer datblygu yr ardaloedd tu allan)*
- *Gweithdai Penarth Chamber Festival*
- *Mabolgampau*
- *Gwasanaeth / eitem BI 6*
- *Ffair Haf*

Diolch i'r rhieni a'r staff am drefnu blwyddyn cyffrous a llwyddianus i'r plant.

2022/2023 Dyddiadau Tymor

Dydd Llun 05 Medi 2022 a *Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023 dyddiau hyfforddiant i bob ysgol. Bydd ysgolion yn cael dewis pryd bydd y tri dydd arall yn digwydd yn ystod y flwydyn.

Bydd pob ysgol ar gau ar Dydd Llun 01 Mai 2023 ar gyfer Dydd Gwyl Y Banc.

*Bydd ysgolion yn cael dewis i una'i gymryd dydd hyfforddiant ar Ddydd Llun Gorffennaf 24ain 2023, neu mewn ffurf gwahanol - fel oriau ychwaneol i gyfarfodydd a hyfforddiant wythnosol.

Dyddiadau penodol:

Nadolig: Dydd Sul 25 Rhagfyr 2022

Dydd Gwener Y Groglith: 07 Ebrill 2023

Gwyl y Banc Pasg: Dydd Llun 10 Ebrill 2023

Gwyl Y Banc Mai: Dydd Llun 01 Mai 2023 a Dydd Llun 29 Mai 2023

Oriau'r Ysgol

Cyfnod Sylfaen		Cyfnod Allweddol 2	
9.00-10.30	Sesiwn 1	9.00- 10.50	Sesiwn 1
10.30-10.45	Egwyl bore	10.50 – 11.05	Egwyl bore
10.45-11.45	Sesiwn 2	11.05 – 12.15	Sesiwn 2
11.45-12.45	Egwyl cinio	12.15-1.15	Egwyl cinio
12.45-2.00	Sesiwn 3	1.15-2.15	Sesiwn 3
2.00-2.15	Egwyl prynhawn	2.15-3.30	Sesiwn 4
2.15-3.30	Sesiwn 4	3.30	Diwedd y diwrnod ysgol
3.30	Diwedd y diwrnod ysgol	3.30 – 4.30	Clybiau ar ôl ysgol Llun - Iau

Nifer ar y Gofrestr Medi 2021

	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Medi 2021	25 - am 14 - pm	39	46	41	41	33	43	37

Staffio 2021 – 22

	Staff Addysgu	Staff Ategol
Meithrin	Mrs Smith a Mrs Rowlands	Mrs Hillman Mrs Thomas Mrs Jeffery Mrs Craven Mrs Karatas Mrs DeClaire Mrs Morgan Miss Lawday Miss Smart Miss Jones
Derbyn	Miss Watt a Mrs Buckland Mrs Shuffley	
Blwyddyn 1	Miss Williams	
Blwyddyn 2	Mrs Bliss Mrs Richards	
Blwyddyn 3	Miss Canter Mrs Le Razavet / Mrs Jones	
Blwyddyn 4	Miss Vaughan	Swyddog Gweinyddu'r Ysgol Mrs Blake
Blwyddyn 5	Mr Prosser Mrs Ryall	
Blwyddyn 6	Miss Evans Mr Hughes	
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Miss Jacks	Goruchwylwyr Cinio Mrs Symmonds Mrs Jeffery Miss Smart
CPA	Miss Jacks	

Presenoldeb 2021 - 2022

Group	Presents	AEA	Authorised Absences	Unauthorised Absences	Possible	% Attend
Year N1	90.9	0.9	8.0	0.2	100.0	91.8
Year N2	88.7	0.6	9.4	1.4	100.0	89.2
Year R	90.8	0.3	8.3	0.6	100.0	91.1
Year 1	91.7	2.4	5.6	0.3	100.0	94.1
Year 2	91.1	1.2	7.3	0.4	100.0	92.3
Year 3	89.8	0.3	9.2	0.7	100.0	90.0
Year 4	90.1	0.8	8.5	0.6	100.0	90.9
Year 5	87.3	2.4	9.6	0.8	100.0	89.6
Year 6	87.9	5.1	6.7	0.3	100.0	93.0
Totals	89.8	1.7	8.0	0.6	100.0	91.4

Presenoldeb

Mae'r Ysgol yn gohebu'n rheolaidd gyda rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â lefelau presenoldeb plant sy'n disgyn yn is na 90%. Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda Swyddog Presenoldeb y Fro. Os oes gan yr Ysgol bryder ynglŷn ag absenoldeb plentyn, bydd yn gweithio gyda'r teulu gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad iddynt. Mewn rhai amgylchiadau, gall yr Ysgol wneud cais am gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg.

Pen-y-Garth yn y Gymuned

Bydd y disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn rhan o gymuned yr Ysgol.

Canodd disgyblion côr yr ysgol yng Ngŵyl Fach y Fro ym mis Mehefin.

Cymerodd grŵp o ddisgyblion ran mewn gweithdy WNO yng Ngŵyl Cerddoriaeth Dinas Powys

Yn ystod y flwddyn codwyd llawer o arian i elusennau gwahanol – Plant mewn Angen a Macmillan

Cyllid a Chyllideb

COST CENTRE CODE	COST CENTRE DESCRIPTION	DETAIL	ANNUAL BUDGET	TOTAL ACTUAL
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CONT. TO FUNDS		2,892.02
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CONT TO CAPITAL OUTTURN		1,380.00
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CONT TO GENERAL RESERVE		1,512.02
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	EMPLOYEES	1,347,974.00	1,321,139.11
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	TEACHING EMPLOYEES	1,016,338.00	992,693.77
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	NON TEACHING EMPLOYEES	93,401.00	83,927.76
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	GRANT EMPLOYEES	238,235.00	244,517.58
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	INTERNAL RECHARGES EXPEND	105,989.00	166,240.62
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	INTERNAL RECHARGES EXPEND	105,989.00	166,240.62
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	PREMISES	116,475.00	112,529.71
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES	37,810.00	39,327.77
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	ENERGY	19,000.00	16,495.74
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	GROUNDS MAINTENANCE	2,095.00	2,040.24
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	RATES	34,240.00	34,240.00
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	REPAIRS & MAINT OF BUILDING	14,555.00	14,540.05
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	WATER SERVICES	8,775.00	5,885.91
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	SUPPLIES AND SERVICES	79,633.00	43,713.38
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	COMMS AND COMPUTING	5,891.00	5,732.72
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	EQUIP, FURNITURE & MATERIALS	14,880.00	32,315.12
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	EXPENSES	150.00	157.91
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	GRANTS & SUBSCRIPTIONS	7,656.00	1,056.00
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	MISC EXPENSES	42,806.00	127.50
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS	7,995.00	4,052.07
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	SERVICES	255.00	272.06
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	TRANSPORT		918.30
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CAR ALLOWANCES		918.30
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	CUSTOMER RECEIPTS	-88,120.00	-159,451.75
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	DONATIONS		-25,475.24
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	RENTAL INCOME	-25,000.00	-11,262.50
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	SALE OF PRODUCTS		-58,587.25
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	SECONDMENT INCOME	-63,120.00	-64,126.76
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	GOVERNMENT GRANT	-314,288.00	-324,892.80
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	OTHER GOVERNMENT GRANTS	-7,752.00	-9,152.00
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	WG GRANTS	-306,536.00	-315,740.80
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	INTERNAL RECHARGES INCOME	-12,511.00	-35,942.34
101304	Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth	INTERNAL RECHARGES INCOME	-12,511.00	-35,942.34
		Total 101304	1,235,152.00	1,127,146.25